

Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

Diweddariad o Fil

Chwefror 2015

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2. Sylwch fod teitl byr y Bil, sef y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), wedi newid yn dilyn un gwelliant allweddol (82) yng Nghyfnod 2.

Cefndir

Cafodd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ei gyflwyno ar 30 Mehefin 2014 gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ("y Pwyllgor") i graffu arno yng Nghyfnod 1. Ar ôl ad-drefnu'r Cabinet ym mis Medi 2014, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y Bil i Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ar 12 Medi 2014.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis Tachwedd 2014. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad ar y Bil hefyd yn yr un mis. Cafodd y Bil ei gymeradwyo gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ar ei ewyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Tachwedd 2014.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 26 Tachwedd 2014. Cyflwynwyd 122 o welliannau, 10 ohonynt gan

Llywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu ar 22 Ionawr 2015.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

Gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 2

Sylwch fod rhifau'r adrannau'n cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd, oni bai bod adran newydd wedi'i hychwanegu.

Trais yn erbyn menywod a merched

Mae **Gwelliant 1** (Leighton Andrews) yn ychwanegu adran 2 newydd, sy'n cyfeirio'n benodol at drais yn erbyn menywod a merched. Mae'r adran 2 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n arfer swyddogaeth berthnasol roi sylw (ynghyd â phob mater perthnasol arall) i'r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr.

Mae'r adran 2 newydd hefyd yn esbonio ystyr "trais yn erbyn menywod a merched".

Ymgynghori ynghylch strategaeth genedlaethol

Mae **Gwelliant 2** (Leighton Andrews) yn diwygio adran 2 wreiddiol y Bil. Mae adran 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol yn esbonio sut y byddant yn gweithio tuag at gyflawni diben y Bil. Effaith y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf, neu cyn diwygio'r strategaeth genedlaethol.

Ymgynghori ynghylch strategaeth leol

Mae **Gwelliant 3** (Leighton Andrews): yn diwygio adran 5 o'r Bil. Mae Adran 5 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyhoeddi strategaeth leol ar y cyd i gyfrannu at gyflawni diben y Bil.



Effaith y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymgynghori cyn cyhoeddi eu strategaeth leol gyntaf neu cyn diwygio'u strategaeth leol.

Canllawiau statudol i'r awdurdodau perthnasol

Mae **Gwelliannau 5, 6 a 7** (Leighton Andrews) yn diwygio adran 12 o'r Bil. Mae adran 12 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y modd y dylai'r awdurdodau perthnasol arfer eu swyddogaethau i gyfrannu at gyflawni diben y Bil.

Diben gwelliannau 5, 6 a 7 yw cynnwys cyfeiriad penodol at: newid agweddau, comisiynu gwasanaethau a pholisïau ar gyfer y gweithle, yn ôl eu tren, fel enghreifftiau o'r materion y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau yn eu cylch.

Cynghorydd Gweinidogol

Mae **Gwelliant 8** (Leighton Andrews) yn diwygio adran 17 o'r Bil. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Gweinidogol. Effaith y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i ddileu'r cyfeiriad at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o deitl y Cynghorydd Gweinidogol.

Gwybodaeth am addysg

Mae **Gwelliant 81** (Leighton Andrews) yn mewnosod adran 9 **newydd** sef *Gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hyrwyddo diben y Ddeddf hon*. Byddai'r adran 9 newydd yn diwygio adrannau 29, 408 a 569 o *Ddeddf Addysg 1996* i ganiatáu i Weinidogion Cymru roi dyletswydd ar awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar y modd y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau addysgol, gan gynnwys drwy addysg rhyw.

Teitl byr

Mae **Gwelliant 82** (Leighton Andrews) yn diwygio adran 23 o'r Bil ac yn disodli 'Trais ar sail Rhywedd' â 'Thrais yn erbyn Menywod'.

Effaith y gwelliant hwn yw newid teitl byr y Bil.

Y camau nesaf

Mae clerod yng Ngwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wedi paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig ac mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi'i gyhoeddi.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 23 Ionawr 2015 (y diwrnod ar ôl i drafodion Cyfnod 2 ddod i ben). Bydd trafodion Cyfnod 3 yn mynd rhagddynt yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth 2015.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc sy'b gyfrifol amdano, sef Sarah Beasley (Sarah.Beasley@assembly.wales)

